

Rydym yn gwmni dynamig
a blaengar. **Rydym yn
ymfalchio** mewn cyfuno
safonau proffesiynol o'r
radd flaenaf gyda gofal
cwsmer ardderchog

utk

Y Cei
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3LN

Rhif ffôn: 01267 237441
Ffacs: 01267 238317
E-bost: mail@utk.co.uk

The Quay
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3LN

Telephone: 01267 237441
Fax: 01267 238317
E-mail: mail@utk.co.uk

Lexcel
Practice Management Standard
Law Society Accredited

Ungoed-Thomas & King Limited
Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif: 2755783
Awdurdodwyd a rheoleiddwyd gan yr
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr rhif: 471940

www.utk.co.uk

utk

Ungoed-Thomas & King
Cyfreithwyr • Solicitors

Cyfraith Teulu



DEALLTWRIAETH | YMDDIRIEDAETH | GWYBODAETH

Cymorth gan arbenigwyr

Mae gan ein Hadran Cyfraith Teulu brofiad mewn trafod ysgariad, cyd-fyw a gwahanu, setliadau eiddo ac ariannol a materion yn ymwneud â phlant.

Mae tegwch yn allweddol wrth geisio atebion i faterion teuluol, a'n nod ni yw hybu canlyniadau teg a chymodol. Mae ein Cyfreithiwr Cyfraith Teulu yn aelod o Resolution, sef Cymdeithas o Gyfreithwyr sy'n dilyn Côd Ymarfer penodol wrth ddelio â materion teuluol. Mae hi hefyd yn aelod o Gynllun Cyfraith Teulu Achrededig Cymdeithas y Gyfraith.

Chytundebau cyd-fyw a chyn priodi

Oherwydd bod cynifer o bobl yn dewis cyd-fyw yn hytrach na phriodi, gall fod yn ddefnyddiol i'r cyplau hynny gytuno ar fframwaith clir cyn dechrau cyd-fyw neu brynu tŷ gyda'i gilydd.

Gall Cytundeb "Cyd-fyw" nodi manylion megis cyfraniad yr unigolion tuag at gostau'r cartref, a gall helpu i osgoi problemau yn y dyfodol os bydd y berthynas yn chwalo neu un o'r partneriaid yn marw.

Yn yr un modd, gall Cytundeb Cyn Priodi gael ei ddefnyddio i nodi beth fydd gan bob parti hawl iddo os byddant yn ysgaru. Dylid llunio'r cytundebau hyn cyn i'r cwpl briodi, ac maent yn arbennig o ddefnyddiol os oes gan un neu'r ddau ohonynt rwybau teuluol blaenorol, cysylltiadau busnes neu enillion uchel.

Gwahanu ac ysgaru

Mae gwahanu neu ysgaru yn gallu bod yn brofiad annifyr a phoenus, ond trwy gael amcanion clir ac ymdrin â'r achos mewn modd sensitif, gellir gwneud y broses yn rhwyddach.

Os ydych yn bwriadu gwahanu, gallwn gynnig cyngor ar lunio Cytundeb Gwahanu ffurfiol.

Os mai ysgariad yw'r unig ddewis, gallwn eich arwain drwy'r broses gan esbonio'r camau cysylltiedig.

Materion ariannol ac eiddo

Rydym yn arbenigo mewn sicrhau bod asedau ariannol ac eiddo yn cael eu rhannu'n deg, a lleihau'r effaith y gall ysgariad ei gael ar fusnesau teuluol, pensiynau a buddsoddiadau.

Gallwn hefyd gynnig cyngor ynghylch cyflafareddu a chyfraith cydweithredu.

Anghydfod ynghylch plant

Gall anghydfodau felly fod yn arbennig o boenus. Mae angen gwybodaeth eang a sensitifwydd aruthrol wrth ddelio â'r achosion hyn, ac rydym yn adnabyddus am y ddau.

P'un ai yw'r anghydfod yn ymwneud â ble y bydd y plant yn byw neu hawl i weld plant, gallwn gynnig cyngor i chi.

Cynhaliaeth plant

Gallwn eich cynorthwyo mewn trafodaethau ynghylch maint y gynhaliaeth y dylid ei thalu ar gyfer eich plant. Os cytunir ar swm, gallwn lunio Cytundeb Cynhaliaeth neu eich helpu i gael Gorchymyn Cydsyniad gan y Llys. Os nad oes modd dod i gytundeb, bydd yn rhaid i swm y gynhaliaeth plant gael ei benderfynu gan yr Asiantaeth Cynnal Plant.



Pam defnyddio UTK!

Rydym yn gwmni dynamig a blaengar. Rydym yn ymfalchïo mewn cyfuno safonau proffesiynol o'r radd flaenaf gyda gofal cwsmer ardderchog. Mae ein Cod Ymarfer yn mynnu y caiff llythyron, negeseuon e-bost a galwadau ffôn eu hateb yn brydlon, yr eglurir costau yn glir ac ein bod yn cyfathrebu mewn iaith yr ydych yn ei deall.

Rydym yn addo darparu gwasanaeth ymatebol ac effeithlon a sicrhau bod gennych y wybodaeth ddiweddaraf o ran costau, cynnydd ac amser. Rydym yn cynnig cyfarfod cychwynnol hyd at hanner awr yn rhad ac am ddim. Yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf byddwn yn eich hysbysu ynglŷn â'r dewisiadau sydd ar gael i chi, y weithdrefn ar gyfer unrhyw weithredu y byddwch efallai am wneud a byddwn yn eich hysbysu'n llawn ynglŷn ag unrhyw gostau a all godi.

Os hoffech wybod mwy, gofynnwch i siarad ag un o'n Cyfreithwyr arbenigol ni heddiw.